
AILGYLCHU A THU HWNT
ABERTAWE



# SUT I GYCHWYN EICH CASGLIAD AILGYLCHU AC AILDDEFNYDDIO EICH HUN

Canolfan Yr Amgylchedd



# CYNNWYS

TUDALEN 1 Cyflwyniad
TUDALEN 2 Beth i'w Ailgylchu
TUDALEN 3 Astudiaeth Achos - Recycling Fundraising
TUDALEN 4 Didoli a Gwahanu
TUDALEN 5 Storio ac Anfon i Ffwrdd
TUDALEN 6 Rhestr Gyfeirio Gorsaf Ailgylchu

# MWY NAG AILGYLCHU ABERTAWE

Mae Mwy Nag Ailgylchu Abertawe yn gweithio i ddatblygu'r economi gylchol ac annog ailddefnyddio, trwsio ac ailgylchu'n lleol. Mae wedi'i leoli yng Nghanolfan yr Amgylchedd, Abertawe, gan gyflenwi amryw o brosiectau, canolbwynt ailgylchu a gwybodaeth a digwyddiadau allgymorth. Mae'n weithgar o fewn y gymuned i helpu pobl i gychwyn eu taith eco-gyfeillgar a chynorthwyo'r sawl sy'n dymuno bod yn fwy rhagweithiol.

Mwy Nag Ailgylchu Abertawe
Canolfan yr Amgylchedd
Stryd y Pier
Abertawe
SA1 1RY

(01792) 480 200

chris@environmentcentre.org.uk

BeyondRecyclingSwansea

BeyondRecyclingSwansea

environmentcentre.org.uk/beyond-recycling-swansea

# CYFLWYNIAD



## CYMRU

#1 YN Y DU
#2 YN EWROP
#3 YN Y BYD

AM MILGYLCHU

Mae pobl yng Nghymru ymhlith goreuon y byd o ran ailgylchu. Ond mae llawer mwy o eitemau a deunyddiau sy’n gallu cael eu hailgylchu na’r hyn sy’n cael ei gasglu o ymyl eich ffordd bob wythnos. Drwy gychwyn eich pwynt casglu eich hun, gallwch chi helpu i ddelio â’r eitemau gwastraff hynny sy’n anodd eu hailgylchu.

Mae ailgylchu ac ailddefnyddio yn wych i’r blaned am ei fod yn:

1. Cadw adnoddau naturiol
2. Amddiffyn ecosystemau a bywyd gwyllt
3. Lleihau galw am ddeunyddiau crai
4. Arbed ynni
5. Cwtogi allyriadau carbon sy’n newid yr hinsawdd

Mae cynnal casgliad ailgylchu hefyd yn gallu dod â mwy o bobl i’ch clwb, eglwys, siop, tafarn neu fan tebyg yn ogystal, mewn rhai achosion, â chodi arian dros eich grŵp neu elusen.

Mae’r arweiniad hwn yn llawn llwyth o wybodaeth ddefnyddiol i’ch rhoi ar ben y ffordd ar eich taith gorsaf ailgylchu.

# BETH I'W AILGYLCHU?

Mae llawer o wahanol bethau sy'n gallu cael eu hailgylchu. Mae'r arweiniad yma'n rhoi blas yn unig ar beth sydd ar gael ac nid ydy'n rhestr gynhwysfawr o bell ffordd. Efallai y gwelwch chi fod eitem benodol sy'n berthnasol i'ch sefydliad chi a fyddai'n addas i chi ei ailgylchu neu efallai bod eich grŵp yn dymuno cynnig gwasanaeth ailgylchu mwy cyffredinol i helpu'ch cymuned i ddelio â phethau anodd-eu-hailgylchu.

| **EITEM** | | **TALU** | **RHADBOST** |
|---|---|---|---|
| CDs and DVDs | Canolfan yr Amgylchedd | X | X |
| Hen welis plant | Canolfan yr Amgylchedd | X | X |
| Tiwbiau mewnol beiciau | Cycle of Good | X | X |
| Ymbarelau | Eto Eto | X | X |
| Batris | recycle-more.co.uk | X | X |
| Corciau | recorkeduk.org | X | X |
| Cetris inc | theinkbin.co.uk | ✓ | ✓ |
| Llinynnau pysgota | anglers-nlrs.co.uk | X | X |
| Eitemau trydanol bach | recyclingforgoodcauses.org | ✓ | ✓ |
| Stampiau | recyclingforgoodcauses.org | ✓ | ✓ |
| Terracycle | Cydlynydd lleol Terracycle | ✓ | Gwiriwch yn lleol |

# TERRACYCLE

Mae Terracycle yn gynllun sy'n casglu eitemau anodd eu hailgylchu fel pecynnau creision a bagiau bara. Mae'r rhestr yn newid yn aml, felly i gychwyn gyda Terracycle cymerwch gip ar ein harweiniad hwylus ar-lein: environmentcentre.org.uk/how-to-terracycle

# Recycling Fundraising Waunarlwydd, Swansea

RMae Recycyling Fundraising yn cael ei redeg gan Seren Leol Louisa sy'n casglu dros Terracycle ers mwy na deng mlynedd. Os ydych chi am gasglu eitemau Terracycle yn Abertawe, bydd angen i chi gysylltu â Louisa i drefnu cludo'ch eitemau i Terracycle

Mae Louisa yn casglu ar ran ysgol ei phlant, ond os ydych chi'n casglu digon o eitemau ac yn dymuno hynny, bydd hi'n cofnodi faint rydych chi wedi'i gasglu bob blwyddyn ac yna'n gwneud taliad i'ch achos chi.




Sut allwch chi helpu Louisa?

- Gwiro ei thudalen yn rheolaidd i wneud yn siŵr eich bod yn gwybod pa eitemau sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd, maen nhw'n newid yn aml
- Gwneud yn siŵr bod eich eitemau wedi cael eu didoli'n drylwyr
- Labelu'ch casgliadau
- Cadw'ch casgliadau'n sych ac yn lân

I gysylltu â Louisa sganiwch y cod yma, cymerwch gip ar ei thudalen facebook.com/WaunarlwyddPrimarySchoolRecycle neu e-bostiwch recyclingtassimos@gmail.com


# DIDOLI A GWAHANU

Yn yr un modd ag unrhyw ailgylchu - boed yn y cartref, y swyddfa neu mewn canolfannau ailgylchu – gwahanu ydy'r allwedd. Mae pob cwmni dim ond yn chwilio am eitemau penodol, felly mae anfon yr eitemau anghywir atyn nhw'n wastraff amser a gallai arwain atyn nhw'n gwrthod eich llwyth. Mae llawer o gynlluniau ailgylchu yn cael eu rhedeg gan elusennau a bydd rhaid iddyn nhw dalu i gael gwared ar eitem sy'n methu cael eu hailgylchu – fel y byddwch chi os bydd pobl yn gadael eitemau sy'n methu cael eu hailgylchu



## TOP TIPS

- Dewsiwch eich pwynt casglu. Gallai pwynt casglu da fod yn hen fin neu'n flwch cardfwrdd. Mae i gyd yn dibynnu faint rydych chi'n meddwl byddwch chi'n ei gasglu, ble mae'n mynd i fynd, yn ogystal â pha mor aml rydych chi'n meddwl y bydd angen ei wagio.
- Gwnewch hi'n amlwg i bobl beth sy'n gallu a beth nad ydy'n gallu mynd i mewn i'r pwynt casglu
- Os ydych chi'n casglu sawl eitem wahanol efallai y bydd yn haws cael nifer o bwyntiau casglu llai o faint nag un mawr – bydd hyn yn golygu llai o amser ddidoli i chi hefyd
- Wrth ddidoli'ch casgliad, mynnwch wisgo menig a golchi'ch dwylo



# STORIO AC ANFON I FFWRDD

Ar ôl dechrau'ch casgliad, cyn hir byddwch chi'n wynebu realiti gorfod delio â phentyrrau o ailgylchu. Mae storio'n ffactor bwysig i'w hystyried wrth ddechrau'ch pwynt casglu.

Bydd angen i chi gydbwyso faint o le sydd gennych chi i storio eitemau a pha mor aml rydych chi am anfon eich ailgylchu i ffwrdd. Mae'n werth nodi bod gan lawer o gynlluniau isafsymiau o ran llwyth. Er enghraifft, byddwch chi ond yn ennill pwyntiau Terracycle am lwythau o 5kg a throsodd.

Tra bod Recycling for Good Causes yn gofyn am o leiaf 10kg. Os chi sy'n gyfrifol am fynd ag ef, y peth gorau ydy casglu digon am lond car fel nad ydych chi'n gwneud llawer o deithiau. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi ddod o hyd i le storio addas hefyd. Mae llond car o ailgylchu yn llenwi mwy o le mewn swyddfa nag y byddech chi'n meddwl. Efallai y bydd yn werth meddwl am dipyn o le storio tu allan. Mae pob math o opsiynau gan gynnwys biniau olwyn, neu o bosib hyd yn oed pwynt casglu pwrpasol dan gaead (gyda tho gwyrdd am bwyntiau bonws!)



# RHESTR GYFEIRIO AILGYLCHU AC AILDDEFNYDDIO

- Dod o hyd i leoliad addas
- Gwneud cais am drwydded cludwr gwastraff (os yw'n berthnasol)
- Penderfynu pa eitemau rydych chi am eu hailgylchu
- Caffael neu adeiladu'ch pwynt casglu
- Labelu'ch pwynt casglu yn glir
- Hysbysebu'ch gwaith casglu
- Didoli didoli didoli
- Paratoi'ch ailgylchu i'w gasglu/cyflenwi
- Ailadrodd
- Helpu i achub y blaned

## A FYDD ANGEN TRWYDDED CLUDWR GWASTRAFF ARNA I?

Dim ond os byddwch chi'n cludo gwastraff y bydd angen trwydded cludwr gwastraff. Gan amlaf, fydd ddim angen trwydded cludwr gwastraff am bwynt ailgylchu. Mae'n hawdd ac yn hwylus gwirio a ydych chi angen un ac i wneud cais os ydych chi. Am ailgylchu graddfa fach, mae trwydded cludwr gwastraff yn ddi-dâl

Am ganllawiau cyfredol cymerwch gip ar:
naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/waste-permitting